



Amcan Llesiant 3

Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr

Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
A	Gwella Deilliannau Addysg	
1	Byddwn yn gwella deilliannau i Ddisgyblion Mwy Abl a Thalentog.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn cynyddu canran yr ysgolion a ddynodwyd â chategori cymorth 'Gwyrdd neu Felyn' o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion MF5-29	Mawrth 2019
3	Byddwn yn cefnogi ysgolion, ar y cyd ag ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) i wella deilliannau'r holl ddisgyblion ymhellach ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 ond gyda phwyslais penodol ar godi cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. MF5-28	Mawrth 2019
4	Byddwn yn parhau i ddal ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) a'r holl ysgolion i gyfrif am barhau i wella safonau a deilliannau i ddysgwyr, gan gymryd camau ymyrraeth mewn ysgolion lle nad yw perfformiad yn foddhaol.	Mawrth 2019
5	Byddwn yn cynyddu'r Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio, 9 canlyniad gorau disgybl yn cynnwys gofynion cyrhaeddiad penodol mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg-Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth, disgyblion Blwyddyn 11 (<i>PAM/032</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 – 360.8 - Blwyddyn Academaidd 16/17</i>)	361.1
6	Byddwn yn cynyddu Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (<i>Hefyd yn Amcan Llesiant 5</i>) (<i>4.1.2.4</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 - 307.6 - Blwyddyn Academaidd 16/17</i>)	309.5
7	Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (2 Safon Uwch gradd A-E)(<i>5.0.2.3</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 – 97.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17</i>)	98.0%
B	Gwella Presenoldeb yn yr Ysgol - Sicrhau bod pob diwrnod yn cyfrif	
1	Byddwn yn parhau i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd mewn ysgol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd addysgol a lles plant gorau posibl, gan herio presenoldeb gwael ac absenoldebau parhaus.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn gweithredu'r Blaen-gynllun Presenoldeb yn dilyn ymgynghori â Phenaethiaid.	Mawrth 2019
3	Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (<i>PAM/007</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 - 94.4% - Blwyddyn Academaidd 16/17</i>)	94.5%
4	Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion cynradd (<i>4.1.2.3</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 – 4.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17</i>)	4.7%
5	Byddwn yn cynyddu % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (<i>PAM/008</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 - 94.3% - Blwyddyn Academaidd 16/17</i>)	94.4%
6	Byddwn yn gostwng % yr absenoldeb wedi'i awdurdodi mewn ysgolion uwchradd (<i>4.1.2.2</i>) (<i>Canlyniad 2017/18 – 4.8% - Blwyddyn Academaidd 16/17</i>)	4.7%

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
C	Ysgol ragorol yn y lle cywir	
1	Byddwn yn cyflawni'r holl ymrwymadau Band A a nodwyd yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg erbyn 2019, ac felly byddwn yn helpu ein plant a'n pobl ifanc i gael addysg o'r radd flaenaf mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Mae hyn yn cynnwys darparu campysau newydd ar gyfer Ysgol Penrhos ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant. MF5-25	Mawrth 2019
2	Cyflwyno buddsoddiad pellach o £129 miliwn rhwng 2019 a 2024 o dan y Rhaglen Moderneiddio Addysg. MF5-26	Mawrth 2024
3	Byddwn yn ystyried y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Rhydaman, Llandeilo a Llanymddyfri. MF5-27	Mawrth 2019
4	Byddwn yn ystyried opsiynau i ddefnyddio Model Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach y seilwaith addysg drwy fuddsoddiad cyfalaf. MF5-33	Mawrth 2019
5	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cael gwell deilliannau addysgol, gan gyfeirio'n benodol at y gofynion ar gyfer ysgolion gwledig. MF5-32	Mawrth 2019
6	Byddwn yn dadansoddi ac yn rhagweld data disgyblion a chapasiti ar gyfer cynllunio lleoedd ysgol ac ad-drefnu dyfodol ysgolion.	Mawrth 2019
7	Byddwn yn rheoli materion ystâd ysgol gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau, gwirio asedau, mentrau eiddo llywodraethwyr a chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth mynediad anabled (Deddf Gwahaniaethau ar Sail Anabled).	Mawrth 2019
8	Byddwn yn cynnal gweithdrefnu statudol sy'n gysylltiedig â ffederasiwn, trefniadaeth ysgolion a/neu brosiectau gwella.	Mawrth 2019
9	Byddwn yn buddsoddi dros £20 miliwn mewn prosiectau sylweddol o ran adeiladu a moderneiddio ysgolion yn Ysgolion Pen Rhos, St John Lloyd, Parc Y Tywyn, Pontyberem, Rhys Pritchard a Llangadog.	Mawrth 2019
10	Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno achosion busnes ar gyfer ad-drefnu ysgolion a phrosiectau buddsoddi yn rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif genedlaethol.	Mawrth 2019
11	Byddwn yn digomisiynu safleoedd yn dilyn cau neu uno ysgolion.	Mawrth 2019
12	Byddwn yn parhau i wella cyflwr, addasrwydd ac adnoddau TGCh mewn ysgolion ac i sicrhau bod gan yr holl ysgolion a adeiladir o'r newydd y seilwaith a'r technolegau digidol diweddaraf i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif. MF5-89	Mawrth 2019
13	Byddwn yn cynnal % yr ysgolion y graddiwyd eu bod yn "Dda" (Categori A) neu'n "Foddhaol" (Categori B) am gyflwr yr adeiladau (4.3.1.8) (Canlyniad 2017/18 – 57%)	63%
D	Datblygu'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth	
1	Byddwn yn parhau i gefnogi, herio a gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r effaith ar wella darpariaeth a deilliannau ar y cyd ag uwch-arweinwyr ysgolion e.e. darparu Seminarau a Rhwydweithiau Arweinyddiaeth.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn cefnogi Llywodraethwyr yn eu rôl arweinyddiaeth strategol drwy weithgareddau briffio a hyfforddi ffocysedig, gan gynnwys y rhaglen hyfforddi llywodraethwyr gorfodol.	Mawrth 2019
3	Byddwn yn datblygu ymhellach systemau i gefnogi gwella ysgolion, gan gynnwys darpariaeth Datblygiad Proffesiynol a Rheoli Perfformiad parhaus ar gyfer staff yr ysgol.	Mawrth 2019

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
4	Drwy gyfrwng Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, byddwn yn sicrhau bod yna ddewislen o gyfleoedd galwedigaethol yn cyd-fynd â chwricwlwm addysgol y Cyngor i fynd i'r afael â'r sgiliau lleol ar gyfer byd gwaith a'r llwybrau lleol i waith, yn ogystal â datblygu llwybrau dysgu gyda Choleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. MF5-34 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 4)	Mawrth 2019
5	Byddwn yn adolygu'r drefn o ran llywodraethwyr ysgol ac yn annog pobl i fod yn llywodraethwyr. MF5-35	Mawrth 2019
6	Byddwn yn adolygu'r holl dyddiadau derbyn disgybl i'r ysgol a'r ystodau oedran ar draws y Sir. MF5-36	Mawrth 2019
7	Byddwn yn adolygu'r gwasanaethau cymorth presennol o ran ymddygiad arbenigol yn y Sir gyda'r bwriad o ddatganoli cymorth a dod â gwasanaethau cymorth i mewn i'r ddarpariaeth brif ffrwd erbyn 2021. MF5-42	Mawrth 2019
8	Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith partneriaeth gydag eraill sy'n darparu dysgu oedolion yn y gymuned drwy Grŵp Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Gaerfyrddin (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2019
E	Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau i gyd	
1	Byddwn yn gweithredu cynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgol er budd pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin. (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 14)	Mawrth 2019
2	Byddwn yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir i'w symud ar hyd y continwwm iaith Gymraeg a hefyd i sicrhau bod disgyblion unigol mewn ysgolion perthnasol yn cael cyfleoedd i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol. MF5-31 (Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan Llesiant 14)	Mawrth 2019
3	Byddwn yn cynyddu % y disgyblion a asesir yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (PAM/033) (Mesur hefyd yn Amcan Llesiant 14) (Canlyniad 2017/18 – 55% - Blwyddyn Academaidd 16/17)	56%
4	Byddwn yn cynyddu % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg (iaith gyntaf) (PAM/034) (Mesur hefyd yn Amcan Llesiant 14) (Canlyniad 2017/18 – 42.9% - Blwyddyn Academaidd 16/17)	43.5%

Mesurau Llwyddiant

Cyrhaeddiad Addysgol - Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio

(disgyblion Blwyddyn 11) (cyf. i'w gadarnhau) (9 canlyniad gorau'r disgyblion yn cynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg–Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth)

Cyfraddau presenoldeb ysgol (Cynradd)(PAM/007) (Uwchradd) (PAM/008)

Bodlonrwydd ar ysgol gynradd y plentyn (Arolwg Cenedlaethol Cymru)